**CYFARFOD HYBRID Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 15fed Chwefror 2023 am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

## 110. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, B. Mellor a Ms V. Roberts.

## 111. ETHOL CYNGHORYDD CYMUNED – WARD TYNEWYDD Y RHYL

Ar ran y Cyngor Tref llongyfarchodd y Maer a chroesawu Cynghorydd newydd ei ethol i Ward Tynewydd Mike Blackwell i'w gyfarfod cyntaf.

## 112. COFNODION

Cadarnhau fel cofnod cywir, gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copiau'n amgaeedig):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyarfod y Cyngor | - | 18fed Ionawr 2023 | - | Rhifau Cofnod | 100-109 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms. J. L. McAlpine a ***PHENERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwllgor Cynllunio | - | 18fed Ionawr 2023 | - | Rhifau Cofnod | 40-42 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNU*** *eu bod yn gofnod cywir.*

## 113. CYFLWYNIAD: ARDAL GWELLA BUSNES Y RHYL (BID Y RHYL)

Croesawodd y Maer gynrychiolwyr BID y Rhyl Ms Abigail Pilling, Mr Nadeem Ahmed a Ms Sue Nash i'r cyfarfod a gwahoddodd nhw i annerch yr aelodau ar lwyddiannau'r BID hyd yma.

Diolchodd Ms Abigail i'r Cyngor Tref am eu gwahodd i i annerch y cynghorwyr, gan ddweud:

- Bod y BID wedi gweithio mewn pedwar maes gweithredu – Diogel a Chroesawgar, Marchnata a Hyrwyddo, Glannau a Chynnal a Chadw, a Chymorth Busnes.

- Bod y Wardeniaid Tref, fel wyneb y BID, yn parhau i weithio’n llwyddiannus chwe diwrnod yr wythnos drwy ganoly  dref.

- Fel rhan o Diogela  Chroesawgar, roeddent wedi cyflwyno Man Diogel, Partneriaeth gwrth-drosedd, Rhyl sy’n Deall Dementia a’r fenter Ffforwm Diogelwch y Rhyl.

- Fel rhan o Lanhau a Chynnal a Chadw, roedd y Wardeniaid Tref wedi cymryd rhan mewn mentrau tipio anghyfreithlon, pethau’n cael eu torri, peryglon a materion gorfodi Cynllunio, ac wedi cyfrannu’r ariannol tuag at offer glanhau megis y peiriant Glutton gyda gweithredwr CSDd penodol, offer ysgybu gwlyb a Chribin Traeth.

- Fel rhan o Farchnata a Hyrwyddo, roeddynt wedi trefnu digwyddiad codi arian Macmillan, digwyddiadau Nos Galan, Nadolig a Phasg ac wedi cyfrannu’n ariannol at ddigwyddiadau mawrion fel K-Fest a’r Sioe Awyr, ac wedi cyflwyno a chefnogi ymgyrchoedd lleol fel cynllun economi cylchol Eich Rhyl, #CaruRhyl, QRBoxx a Baneri Caffis, ynghyd â chynorthwyo gyda hyrwyddo pob un ohonynt.

- Fel rhan o Gymorth Busnes, eu bod wedi darparu hyfforddiant a datblygiad i fusnesau mewn cyorth cyntaf, QRBoxx, Porth Hyfforddi Delyn ac wedi cefnogi gyda chyfeirio ac adborth ynghyd â chymorth Covid (rhhannu gwybodaeth, caffael PPE ac ati).

- Eu bod wedi lobio ar nifer o faterion lleol megis tynnu ymaith yr amddiffynwyr lôn Covid a chyflwyno baeau llwytho ychwanegol ar y stryd fawr, glanhau dodrefn stryd yn aml a haenau feinyl ar gyfer adeiladau ym Meddiant Cyngor Sir Ddinbgych.

Adroddodd cynrychiolydd y Cyngor Tref ar BID y RHyl, y Cynghorydd A. R. James, ei fod wedi cael croeso cynnes yn eu cyfarfodydd ac roedd yn falch o weld cymaint o waith partneriaeth er budd y Rhyl.

Diolchodd y Maer i Ms Pilling, Mr Ahmed a Ms Nash am gyflwyniad cynhwysfawr iawn.

**114. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at ddigwyddiad a fynychodd ar ran y Cyngor Tref yn y mis diwethaf (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen) sef Gwasanaeth Dinesig Cyngor Tref Rhuddlan ac roedd yn ddiwrnod braf iawn.

**115. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)**

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen) yn manylu’r atodlen daliadau a wnaed a’r incwm a dderbyniwyd.

| Rhif Taleb | Enw’r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o’r Nwyddau a’r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1567 | BT | 585.81 | Rhentu ffôn a chost galwadau |
| 1566 | Shire Leasing | 337.33 | System ffôn Avaya – taliad prydles 4 o 4 2022/23 |
| 1526 | Tesco Mobile | 3.00 | Yswiriant misol |
| 1568 | HSBC | 8.00 | Taliadau banc 17 Tach i 16 Rhagfyr 2022 |
| 1569 | CThEF | 4,675.36 | Didyniadau PAYE Rhagfyr 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1570 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 5,459.97 | Didyniadau pensiwn ac ariannu diffyg Rhagfyr 2022 |
| 1571 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,861.31 | Cyflog net staff Cyngor Tref y Rhyl Rhaghfyr 2022 |
| 1391 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | AAC Swyddfeydd Dinesig, WRCC, y Rhyl |
| 1419 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser - taliad 9 o 12 |
| 1539 | Tesco Mobile | 3.00 | Yswiriant misol |
| 1578 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,037.00 | Benthyciad SC2 – taliad 3 o 3 2022/23 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **52,623.44** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod | 168.80 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod | 23.02 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod | 23.02 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod | 23.02 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod | 23.02 |
| Military Mutual Insurers | Hawliad yswiriant – goleuadau wedi eu difrodi | 7,032.23 |
| CThEM | Hawliad TAW Chwarter 3 (Hydref i Ragfyr 2022) | 8,870.46 |
| | **Cyfanswm incwm** | **16,163.57** |

## 116. <u>AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)</u>

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â rheolau ariannol mabwysiedig y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau anrheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu at y rhestr o gyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gany r aelodau.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r canlynol ar gyfer eu talu a'u llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

| Cyflenwr | Manylion | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Proarb Ltd | Coeden Nadolig 2023 | 1579 | 1,818.00 |
| Swyddfa Comisiynydd Gwybdoaeth (ICO) | Ffi flynyddol 2023 | 1580 | 35.00 |
| Sioned Graham Cameron | Gwasanaethau cyfieithu | 1585 | 521.93 |
| Cyngor Tref Prestatyn | 2 x docyn i Ginio Elusen y Maer 17eg Chwefror 2023 | 1586 | 80.00 |
| Delwedd Ltd | Lletya a chynnal a chadw gwefan | 1587 | 828.17 |
| Y Cyngh D. L. King | Lwfans Maer 22/23 taliad 3 o 3 | 1588 | 433.33 |
| Y Cyngh D. L. King | Lwfans Uwch Aelod 22/23 taiad 3 o 3 | 1589 | 166.66 |
| Y Cyngh J. L. McAlpine | Lwfans Dirprwy Faer 22/23 taliad 3 o 3 | 1590 | 133.32 |
| Y Cyngh J. L. McAlpine | Lwfans Uwch Aelod 22/23 taliad 3 o 3 | 1591 | 166.66 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Canda Copying Ltd | Rhentu llungopiwr | 1592 | 259.32 |
| Canda Copying Ltd | Taliadau llungopio | 1593 | 303.34 |
| Blachere Illumination UK Ltd | Trwsio goleuadau | 1594 | 1,608.94 |
| **Cyfasnwm Atodlen B** | | | **£6,354.67** |

**Taliadau Brys:** Gwneud dau daliad (Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a drefnwyd ar gyfer 1af Chwefror 2023 wedi ei ganslo) - talebau 1579 a 1586.

**Taliadau Cerdyn:** Dim

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ddiwygiedig ar gyfer ei thalu, a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**117. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2022/23**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol ar gyfer 2022/23.*

**118. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN RHAGFYR 2022 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2022/23**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth i'r aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr adroddiad.*

**119. CRONFA BENSIWN CLWYD – PRISIAD TEIRBYNYDDOL 2022 AR GYFER CYNGOR TREF Y RHYL AC ARGYMHELLION AR GYFER Y TAIR BLYNEDD NESAF**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar ol prisiad teirblynyddol cyffrnaoiad t Cyngor Tref yng Nghronfa Bensiwn Clwyd a'u hargymhellion ar y cyd.

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau o'r diffyg arwyddocaol yn y gronfa o 52% yn ôl yn 2013 a gordaliadau'r Cyngor Tref ers hynny bob mis, a oedd wedi dod â'r gronfa yn ôl i fyny i 97%.

Roedd Cronfa Bensiwn Clwyd wedi argymell talu'r 3% sy'n weddill dros gyfnod o 8 mlynedd, gan roi arbedion o £14,500 yn y gyllideb yn y flwyddyn bresennol. Fodd bynnag, roedd Clerc y Dfref, ar ôl gofyn i'r gronfa am ffigurau i weld os dylai'r Cyngor Tref dalu'r diffyg o 3% yn gynt, roedd y Swyddog Cyllid wedi ystyried y ffigurau a oedd wedi ei alluogi ef a Chlerc y Dref i argymell talu'r diffyg ym mlwyddyn ariannol 2023/24. Byddai hyn yn arwain at orwariant bach o £3,400 i ddechrau, a ellid ei dalu o gronfeydd wrth gefn, ond byddai'n arbed £4,000 i'r Cyngor Tref mewn taliadau llog ac arbedion parhaol yn y gyllideb o £17,100 bob blwyddyn o hyn allan.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau'n cymeradwyo argymhelliad y swyddogion i dalu'r diffyg o 3% i ffwrdd gyda'i gilydd ym mlwyddyn ariannol 2023/24 er mwyn cael yr arbedion hirdymor.*

## 120. CYNLLUN HYFORDDI AELODAU A STAFF CYNGOR GTREF Y RHYL

Ymhellach i gofnod rhif 75 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Tachwedd 2022, cyfeiriodd Clerc y Drwef at ei adroddiad ac at y Cynllun Hyfforddi drafft (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei ystyried a'i gymeradwyo.

Awgrymodd aelod bod sesiwn Holi ac Ateb cyffredinol ar gyfer cynghorwyr newydd yn cael ei ychwanegu i'r cynllun.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) Derbyn y Cynllun Hyfforddi gydag ychwanegiad o Sesiwn Holi ac Ateb i gynghorwyr newydd.*

*(ii) Os bydd amser yn caniatau (ar 1af Mawrth 2023) cynnal sesiwn Holi ac Ate bar unwaith ar ol y sesiwn pennu cwestiynau i baratoi ar gyfer presenoldeb cybnry7chiolwyr o Fwrdd Prifysgol iechyd Betsi Cadwaladr.*

*(iii) Awdurdodi Clerc y Dre fi gynnwys unrhyw awgrymiadau hyfforddi a wnaed gan yr aelodau i'r Cynllun, yn hytrach na gorfod dod yn ôl at y Cyngor bob tro er mwyn cael cymeradwyaeth.*

## 121. LLOCHESI BWS / CODAU QR Y RHYL

Dywedodd Clerc y Dref bod cais wedi ei wneud gan BID y Rhyl yn gofyn am ganiatâd y Cyngor Tref i ddefnyddio ei lochesi bws ar gyfer Codau QR (Ymateb Cyflym).

Ychwanegodd Clerc y Dfref mai pwrpas y codau oedd hyrwyddo busnesau lleol a digwyddiadau ac nad oedd goblygiadau cost i'r Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

**[Datganodd y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine fuddiant personol a rhagfarnus yn yr eitem uchod, gan fod ei busnes hi eisoes yn ymddangos yn y Codau QR a oedd ar gael ar hyn o bryd ledled y dref, a gadawodd Siambr y Cyngor heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater]**

## 122. EITEM GAN AELOD: MYNEGAI AMDDIFADIAD LLUOSOG CYMRU (WIMD)

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE, am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyngor Tref sefydlu gweithgor bach i ddeall sut gellir delio gyda materion WIMD a chreu map ar gyfer lleihau amddifadiad yn y dref.

Dywedodd y Cynghorydd Butterfield bod Cyngor Sir Ddinbych wedi sefydlu Bwrdd Datblygu Cymunedol y Rhyl, ac iddi fynychu dau gyfarfod, a bod ganddi bryderon ynglŷn â chyfeiriad y bwrdd.

Adroddodd y Cynghorydd Butterfield bod y Bwrdd wedi cyflwyno mentrau bwyd ac addysg gynnar yn Rhuthun a Llanelwy ond nid yn y Rhyl, a oedd yn ei synnu'n llwyr, a theimlai bod angen clir i ddeall amddifadiad yn iawn a rhannu hynny gyda'r Bwrdd.

***PENDERFYNWYD*** *y bydd Clerc y Dref yn ail-ystyuried y ddogfen sylweddol a gynhyrchwyd gan y Cyngor Tref flynydddoedd yn ôl mewn ymateb i ystadegau WIMD blaenorol a'i diweddaru gyda'r ffigurau diweddaraf i ddechrau cyn ei chyflwyno i Ymddiriedolaeth Joseph Rowntree am eu sylwadau nhw.*

**123. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**124. COFNODION CYFRINACHOL**

Derbyn y cofnodion canlynol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth a chymeradwyo'r argymhellion ynddynt:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd | - | 26ain Medi 2022 | - | Rhifau Cofnod 11 - 17 |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.*

**125. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Maer: …………………...

Dyddiad: ………………………